# Triniaeth ffrwythlondeb gan ddefnyddio tabledi Clomid

## Gwybodaeth i Gleifion

### Beth yw Clomid a pham mae'n cael ei roi ar bresgripsiwn?

Defnyddir tabledi Clomid (clomiphene citrate) mewn triniaeth ffrwythlondeb i ysgogi ofyliad (rhyddhau wyau o'r ofarïau) mewn menywod nad ydynt yn ofylu'n rheolaidd, er enghraifft menywod sydd â syndrom ofarïau polysystig. Nod cymryd Clomid yw cynyddu ofyliad a chynyddu'r siawns y byddwch chi'n beichiogi. Mae'n gweithio trwy roi hwb i'r system hormonau i ysgogi rhyddhau wyau.

### Cyn cymryd Clomid

Weithiau mae effaith meddyginiaethau'n cael eu newid gan rywbeth arall, fel meddyginiaeth arall, bwyd, atchwanegiadau, neu hyd yn oed gan gyflwr meddygol. Am y rhesymau hyn, mae'n bwysig bod eich meddyg yn gwybod am y canlynol cyn i chi ddechrau cymryd Clomid:

- Os ydych chi'n meddwl eich bod chi eisoes yn feichiog
- Os oes gennych chi broblemau gyda'r afu
- Os dywedwyd wrthych chi fod gennych chi syst ar yr ofarïau
- Os dywedwyd wrthych chi fod gennych chi diwmor sy'n ddibynnol ar hormonau (mae hwn yn ganser sy'n cael ei waethygu gan hormonau)
- Os ydych chi'n cael mislif trwm neu anarferol
- Os ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill; mae hyn yn cynnwys unrhyw feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd heb bresgripsiwn, fel meddyginiaethau llysieuol a chyflenwol.

### Sut i gymryd Clomid

Tabled a gymerir drwy'r geg yw Clomid. Y dos cychwynnol fel arfer yw 50mg y dydd, i'w gymryd o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6 cylchred eich mislif (diwrnod 1 yw diwrnod llawn cyntaf y gwaedu). Er mwyn eich helpu i gofio cymryd Clomid, cymerwch ef tua'r un amser bob dydd. Os byddwch chi'n anghofio cymryd dos, siaradwch â'ch meddyg, oherwydd efallai y bydd angen i chi newid cylch eich triniaeth. **Peidiwch â chymryd dau ddos gyda'i gilydd i wneud iawn am ddos rydych chi wedi'i anghofio.**

**Pryd yw'r amser gorau i gael cyfathrach rywiol?**

Argymhellir eich bod yn cael cyfathrach rywiol o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos, a'u hamseru'n gyson drwy gydol y mis er mwyn ceisio beichiogi. Wrth gymryd Clomid, yr amser gorau i gael cyfathrach rywiol yw o 5 diwrnod ar ôl y dabled Clomid olaf (diwrnod 10 yn y cylch), bob yn ail ddiwrnod am wythnos.

**Sut mae'r ymateb i'r driniaeth yn cael ei fonitro?**

Bydd gofyn i chi fynychu prawf gwaed ar ddiwrnod 21 y cylch cyntaf i wirio lefel eich progesteron. Bydd hyn yn ein galluogi i wirio a ydych chi wedi ofylu. Gall gymryd 3-4 diwrnod i ganlyniad y prawf progesteron fod ar gael.

Cysylltwch ag ysgrifennydd y gwasanaethau ffrwythlondeb i gael y canlyniad **01873 732148**.

Os yw'r prawf gwaed yn dangos eich bod wedi ofylu, gellir ailadrodd yr un dos o Clomid yn y cylchredau canlynol, eto o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6.
Os nad yw ofyliad wedi digwydd, fe'ch cynghorir i gynyddu'r dos i 100mg, bydd angen cymryd hwn bob dydd, eto o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6 cylchred eich mislif. Byddwch hefyd yn cael presgripsiwn ar gyfer mwy o dabledi os cynyddir y dos. **Peidiwch** â chynyddu'r dos eich hun.

Bydd angen prawf gwaed lefel progesteron pellach ar ddiwrnod 21 o gylchred eich mislif os ydych wedi cael cyngor i gynyddu'r dos. Os yw'r prawf yn cadarnhau ofyliad, gellir ailadrodd yr un dos o Clomid yn y cylchoedd canlynol. Os nad oes gwaedu’n digwydd erbyn 6 wythnos ar ôl eich tabled Clomid olaf, dylech chi wneud prawf beichiogrwydd.

Os ydych chi'n feichiog, ni fydd angen triniaeth bellach arnoch chi a dylech chi roi gwybod i'ch meddyg teulu. Os yw eich prawf beichiogrwydd yn negyddol, gwnewch y prawf eto ymhen wythnos i gadarnhau'r canlyniad. Os nad ydych chi'n feichiog, dechreuwch gylch arall o driniaeth Clomid ar yr un dos ag uchod, ar eich mislif nesaf rhwng diwrnod 2 a diwrnod 6 o'ch cylchred.

**Hyd y driniaeth**

Ni argymhellir cymryd Clomid am **fwy na chwech chylch i ddechrau**. Os nad oes beichiogrwydd wedi digwydd ar ôl chwech chylchred, gofynnir i chi weld y meddyg ymgynghorol i gynllunio'r camau nesaf. Mae'n bosibl na fydd rhai cleifion yn ofylu o gwbl ar Clomid. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd triniaethau amgen yn cael eu trafod.

**Beth os nad oes gennych chi gylchred mislif?**

Os nad ydych chi'n cael mislif yn rheolaidd, neu os nad ydych yn cael mislif yn ddigon aml, byddwch yn cael tabled progestin (fel Provera) i ysgogi gwaedu. Yna dechreuwch Clomid ar yr ail ddiwrnod ar ôl i'r mislif a ysgogwyd ddechrau, a dilynwch y cyfarwyddiadau uchod.

## **Pa sgil-effeithiau y gall y feddyginiaeth hon eu hachosi**?

Nid yw'n gyffredin profi sgil-effeithiau wrth gymryd Clomid.
Mae'r symptomau mwy cyffredin yn cynnwys:
· Fflachiadau poeth, cur pen
· Anghysur yn yr abdomen (chwydd neu boen)
· Anghysur yn y fron
· Mislif afreolaidd â gwaedu neu smotiau gwaed rhwng cylchredau
· Newid sydyn mewn hwyliau, teimlo'n anniddig
·Gor-ysgogi'r ofarïau (lle mae'r ofarïau wedi gor-ymateb). Cysylltwch â'ch meddyg ar unwaith os byddwch chi'n profi chwydd yn y stumog, yn ennill pwysau neu'n teimlo'n fyr o wynt.
· Beichiogrwydd lluosog - mae nifer yr achosion o efeilliaid yn cynyddu i 5-10% wrth ddefnyddio Clomid, ond mae genedigaethau lluosog sy'n fwy nag efeilliaid yn brin (llai na 0.5%).
· Gallwch brofi **symptomau i'r golwg** (anghyffredin) ddigwydd, gan gynnwys golwg aneglur neu golwg ddwbl a gweld smotiau neu fflachiadau. **Os bydd y rhain yn digwydd, rhaid i chi roi'r gorau i'r driniaeth a rhoi gwybod i'ch meddyg ar unwaith.**
·Canser yr ofarïau: Gall defnyddio Clomid am gyfnodau hir (mwy na 6 chylch o driniaeth) gynyddu'r risg o ganser yr ofarïau 'ar y ffin' (cam rhwng normal a chanser). Y ffactorau risg mwyaf ar gyfer canser yr ofarïau yw hanes teuluol a ffactorau amgylcheddol. Mae mwy o risg o ganser yr ofarïau yn ddiweddarach mewn bywyd i fenywod sy'n llai ffrwythlon, ond mae geni babi yn lleihau'r risg eto. Dyma pam nad yw Clomid yn gyffredinol, yn cael ei ddefnyddio am fwy na 6 chylch o driniaeth.

*Fe welwch restr lawn o symptomau ar daflen wybodaeth y gwneuthurwr a ddaw gyda'ch meddyginiaeth. Os oes unrhyw symptomau eraill y credwch chi allai fod yn gysylltiedig â'r tabledi hyn, siaradwch â'ch meddyg neu fferyllydd am gyngor.*

## Ymateb i'r driniaeth

Bydd tua 7 o bob 10 o gleifion sy'n cael eu trin â Clomid yn ofylu a bydd 4 o bob 10 yn beichiogi. Mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n ofylu yn gwneud hynny yn ystod tri mis cyntaf y driniaeth.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, os hoffech chi siarad â'r nyrsys cyswllt ffrwythlondeb neu os hoffech chi drefnu apwyntiad, cysylltwch ag ysgrifennydd y gwasanaethau ffrwythlondeb drwy ffonio 01873 732148.**

Gwefannau defnyddiol NHS Choices:
[Fertility Network (fertilitynetworkuk.org)]
[Saving babies' lives - Charity for Babies | Tommy's (tommys.org)]

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**